Winter 2008

# BMC CYMRU



## NEXT MEETING SATURDAY 22ND NOVEMBER 5PM

**Plas-y-Brenin - Free Food - All Welcome**

**BMC Cymru/Wales Hillwalking and Climbing Funday**

This meeting will incorporate the BMC Cymru/Wales AGM and is open to all BMC Club and Individual Members in Wales

During the day there will be some free workshops, we are offering:

- A bolting workshop
- Navigation
- Using a GPS
- Self Rescue for Climbers
- Welsh for Hillwalkers
- Upland Environment
- Coaching for Rock Climbers

So we can organise these workshops booking must be made direct to bmccymruwales@live.co.uk BEFORE Tuesday 11th November, no bookings will be taken after this date.

Plas y Brenin wall will be free all day to BMC individual and Club Members please show your membership card at PYB reception.

A free meal will be served at 5.00pm. Please note the Plas y Brenin kitchen will be very busy so you must be prompt for this. Your meal can be taken in to the AGM and Open Forum which will start at 5.30 pm.

The AGM will include BMC Cymru/Wales's annual report and the election of officers. All current officers are available for re-election but we must identify interested individuals who will be willing to take over next year.

We are also always looking for volunteers to help out with raising the profile of Hillwalking and Climbing in Wales, if you can help with this please come forward.

Remember we are all volunteers and the BMC is what we make it. Follow the AGM bit will be the OPEN FORUM, your chance to raise any issue relating to Hillwalking and Climbing you like or to discuss anything arising from information in this newsletter.

At 7.30 pm there will be a **grand quiz** run by the world famous Noel Craine and George Smith of Llamff fame.

The quiz will be followed by a showing of George Smith new film *Upside Down Wales*. George will be present for question time.

## South Wales Bolt Fund

South Wales now has it's own bolt fund, please visit www.southwalesboltfund.co.uk to find out more and how you can help.

## Downing Street




I was happy to be invited, along with another 130 people, to the Prime Minister's Reception for the BMC at Downing Street on the 9th October.

Unfortunately Gordon Brown failed to make the meeting as he was working on the Credit Crunch (no grade as yet!) so the reception was hosted by The Sports Minister.

Charles Clarke and Leo Holding gave excellent speeches about climbing in the UK and UK climber's achievements around the world. The Sports Minister showed he was up to speed by talking about coaching.

It was all a bit odd really. Just a bunch of climbers gathered in some state rooms at number ten talking about climbing to each other.

Security was very tight to get in and the exterior is covered in scaffolding at the moment but it was nice to be able to walk through 'that door'. Whether much was achieved I'm not sure. We did manage to drink plenty and I can recommend the nibbles too!


## Fixed Gear Debate



The BMC will make monies available through its existing fixed gear fund to the North and South Wales bolts funds for stainless steel pegs if we want it.

Should pegs be replaced or left to rot and climbs regraded appropriately. Do we wish to see more and better abseil stations? Bring your views to the Open Forum.

## Tremadog news



I have recently been informed that we are very near to finalising our application to the Forestry Commission's Better Woods for Wales scheme to help manage the trees at Bwlch y Moch.

The scheme will include the removal of some sycamore trees to open up the crag to more sunlight, it will include the surfacing of some paths and some way marking. Your thoughts as ever will be welcome at the Open Forum.

## January work day/ weekend.

I'm proposing a work day/ weekend at Bwlch y Moch on January 10/11th 2009.

We should see if we can improve some of the approaches too routes (Christmas Curry path?) and undertake any larger scale gardening before the Tremadog Festival in April.

I'll try to organise the usual incentives such as free doss, cakes and beer. If you'd like to help out with this one let me know via bmccymruwales@live.co.uk

## Welsh Officer/MLTW post

Much discussed and dreamt of I know. I have been asked to represent the case for a BMC officer for Wales again at the next BMC National Council meeting on the 29th November.

Our current tack is to ask the BMC to fund this post for two years with one of the specific aims of the post being to seek sources of Welsh Funding. Currently the BMC receives no Welsh money apart from your membership fees.

MLTW will be advertising for a MLTW National Officer to work a 0.5 contract from April '09, we could try to find one person to do both jobs though this may not be possible given the very differing remits.

## WAG links

There must be a BMC member out there who help us to forge links with the Welsh Assembly Government, is it you?

## Coaching news



The Mountaineering Co-Ordination Group has recently received a report from the National Source Group on the future of Coaching in Mountaineering.

After reading the report MCG has asked MLTUK to draw up a coaching scheme which would sit alongside the existing MLT awards. The NSG report should be available for viewing on the BMC's website.

## Slate bolting



At our last meeting an amiable discussion was had on the topic of retro-bolting on slate.

If you wish to indulge in retro-bolting then please put your proposals on

www.slate.wetpaint.com

and bring them to a BMC Cymru meeting.

## Cromlech Path

This project is progressing and we hope to have more news at the next meeting

## Fencing/Rock Bags



We have had a dismal response from Hillwalkers and Climbers about the whereabouts of this litter on our hills. I will draw a close to this project at the next meeting.

## What do you want?

Not everyone can get to BMC Cymru/Wales meetings. You can contact us via bmccymruwales@live.co.uk or come to the annual Funday which is held on a Saturday.

What should we be doing? What should our priorities be for 2009. Remember the BMC is us, what do you want?

## Wiki's


Don't forget to visit register and comment at

www.slate.wetpaint.com
www.tremadog.wetpaint.com
www.northwaleslimestone.wetpaint.com
www.gogarth.wetpaint.com

These are interactive websites, you can register anytime and start posting comments, you can use the same user name and password for all four wiki's.

Information is the key, you cannot hide anymore, knowledge is power, let's share it.

## Penmaen Head and Dali's Hole leading/bottom roping




These two new venues have been incredibly popular with groups of climbers from across a wide area.

Some concern has been expressed about 'groups' hogging routes by bottom roping them.

It seems to me that if someone leads the routes then has several 'seconds' then there should little problem, but going there and simply setting the routes up, then hogging, them is simply selfish.

So let's play the game and be a little considerate, but remember four people and a rope is a group not just those under instruction or being coached.

## The Vaynol

Sad to hear that as you read this the Vaynol Arms, in Nant Peris, will be under new management.

Ann and her team have been excellent hosts to BMC Cymru meetings, hillwalkers and climbers operating in the area.

We offer her the largest of thanks possible and wish her family well in their new ventures. We can only hope the new management will be as hospitable.

## Graig y Gesail



The farm upon whose land this crag sits on is up for sale. Access to the crag is by permissive access as it is not on CROW land.

We will be watching the situation closely and hope to renegotiate the access agreement, meanwhile if you are in that area keep on eye on things for us please.

## National Council

The BMC's National Council has agreed to pay for the translation cots of MTP's Hillwalking book and possibly some of the production costs.

This is great news for BMC Cymru and it will be the first Mountaineering manual produced in the Welsh language, hopefully it could be a catalyst for more local people to take to the outdoors.

NC also agreed to BMC participation in the National Eisteddfod next year, this will be in Bala during August 2009, we would very much like to hear from any Welsh speaking members who's like to be involved.

It will provide a wonderful occasion to launch the Hillwalking book in Welsh too. If you would like to help out in any way with the Eistedford there will be a planning meeting at PYB on 1st December at 5.00pm, just turn up.

## MLTUK

...is proposing changing its name to MLT and, with the approval of the four home nations boards, moving to a more strategic management role. Currently the mass of MLT-whatever's is quite confusing to people interested in MLTS/E/NI/W or UK awards and whether or not they should join MLTA at the same time!

The Home Nation boards will keep their identity but registering and passing through the awards should be easier to understand for the user group. MLT will be advertising for a Chief executive whose role will be to move things forward, coordinate and manage (on a day to day basis) the work of the boards.

## New CC Guides

The Climbers' Club is working on a selection of new guides. Over the next 6-10 months, we expect that the following guides will be completed and in the shops. The schedule is as follows, along with the individual compilers.

**Llanberis** including the Teryn Bluffs (as in the 2003 guide) Iwan Arfon-Jones, Bob Moulton, Don Sargeant Jan 2009

**Ogwen Tryfan & Glyderau**, plus Dyffryn Mymbyr minor crags omitted from Llanberis (2003) Mike Bailey, Bob Moulton, Spring 2009

**Tremadog** As in the 2000 guide Steve Long, Peter Sterling Summer 2009

The usual exhortations apply: if you have any good photos (in any format) that you would like to offer for inclusion in any of the guides, please send them to the CC via Martin Kocsis (address in the membership book) or email: kinderguide@hotmail.com

If anyone has any comments regarding mistakes in the previous versions of the guides, please get in touch via the same way. All contributions will be credited and the CC, plus generations of climbers to come will be forever in your debt.

Pembroke steve Quinton reports that a fantastic set of crag photos has been taken and that work is progressing nicely. See the Pembroke dagger appeal on the CC website. [www.climbers-club.co.uk](http://www.climbers-club.co.uk)



### Ground Up Guides

Ground Up report that the Gogarth North Guide should be in the shops during November.

It will feature Gogarth north from the Upper Tier and the north and east coasts of Anglesey. It will feature Quartzite, Limestone and Sandstone.

This will be followed by Slate next spring and then Gogarth South next autumn. 2009 should be a vintage year for North Wales guidebooks, fingers crossed!

### Mountain Heritage Trust Report

The Trust met on 11th Sept at Penrith. A major item of concern remains the future funding of the archivist who still has much to do.

I noted the report at the last Cymru/Wales area meeting reporting the BMC currently has a financial surplus and was seeking ideas from the areas on how to use these monies.

It was agreed to make an application to the National Council for a bridging grant to see the Trust into 2009. Storage space for the increasing number of collected items continues to be a problem.

The University of Cumbria has expressed an interest in hosting the Trust's collection and a joint working party would investigate further.

Chairman, Terry Gifford, noted that this would be the last year that he would be organising the Kendal Film Festival.

K.C.Gordon, BMC Cymru representative.

### Youth Scene

The 2nd annual Beacon Back to School Bouldering comp was a great Success, with 21 from Gwynedd, 5 from Ynys Mon, 6 from Conwy, 1 from Wrexham, and 12 from England.

The 45 Youngsters competed in 7 categories, each attempting 5 boulder problems of increasing difficulty. The competition was fierce, but friendly, with many kids achieving personal bests.

Amongst these were Archie Ball, the Youngest competitor at 6, gaining a 1st Place, and Conor Elwin, who gained 3rd place in the 10-12 boys after only starting climbing earlier this year. Roll on the Youth Climbing Series next year.

#### Full Results

6-9 Girls
1st Natalie Jordan–Rogers
2nd Kezia Lovick-Jones
3rd Sinead Williams

6-9 Boys
1st Archie Ball
2nd Finn Burnham
3rd Kes Thomas

10-12 Girls
1st Josie Ball
2nd Ellie Cadwalader
3rd Ellissa Bryant

10-12 Boys
1st Michael Hopkins
2nd Charlie Mpetha
3rd Conor Elwin

13-15 Girls
1st Jennifer Wood
2nd Rachel Deakin
3rd Thirza Moulden

13-15 Boys
1st Bradley Hargreaves
2nd James Fowler
3rd Leon Bowen

16-17 Boys
1st Charli Jones
2nd Gareth Jones

**BMC CRAG CODE**
www.thebmc.co.uk

| | |
|---|---|
| **Access** | Check the Regional Access Database (RAD) on www.thebmc.co.uk for the latest access information |
| **Parking** | Park carefully – avoid gateways and driveways |
| **Footpaths** | Keep to established paths – leave gates as you find them |
| **Risk** | Climbing can be dangerous – accept the risks and be aware of other people around you |
| **Respect** | Groups and individuals – respect the rock, local climbing ethics and other people |
| **Wildlife** | Do not disturb livestock, wildlife or cliff vegetation; respect seasonal bird nesting restrictions |
| **Dogs** | Keep dogs under control at all times; don't let your dog chase sheep or disturb wildlife |
| **Litter** | 'Leave no trace' – take all litter home with you |
| **Toilets** | Don't make a mess – bury your waste |
| **Economy** | Do everything you can to support the rural economy – shop locally |

**BMC Participation Statement** — Climbing, hill walking and mountaineering are activities with a danger of personal injury or death. Participants in these activities should be aware of and accept these risks and be responsible for their own actions and involvement.

Supporting Mountain Training • Yn Cefnogi Hyfforddiant Mynydda
MOUNTAIN TRAINING TRUST

Gaeaf 2008

# BMC CYMRU



## Y CYFARFOD NESAF 22 TACHWEDD 5PM

**Plas-y-Brenin - Bwyd am Ddim - Croeso I Bawb**

### Diwrnod Hwyl Cerdded y Bryniau a Dringo BMC Cymru

Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys Cyfarfod Blynyddol BMC Cymru ac mae croeso i holl aelodau Clybiau Cyngor Mynydda Prydain (BMC) ac Aelodau Unigol yng Nghymru. Yn ystod y dydd bydd gweithdai am ddim ac rydym yn cynnig:

- Gweithdy bolltio
- Canfod y ffordd
- Defnyddio GPS
- Hunan Achub ar gyfer Dringwyr
- Cymraeg i Gerddwyr Mynydd
- Amgylchedd yr Ucheldir
- Hyfforddi ar gyfer Dringwyr Creigiau

Er mwyn i ni fedru trefnu'r gweithdai hyn gofynnir i chi anfon cais am le yn uniongyrchol at bmccymruwales@live.co.uk CYN dydd Gwener 7fed Tachwedd. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau am le ar ôl y dyddiad hwnnw.

Bydd wal Plas y Brenin ar gael am ddim drwy'r dydd i aelodau unigol ac aelodau Clybiau BMC. Dangoswch eich cerdyn aelodaeth yn nerbynfa Plas-y-Brenin.

Bydd pryd o fwyd am ddim ar gael am 5.00 o'r gloch. Bydd cegin Plas-y-Brenin yn brysur iawn felly gofynnir i chi fod yn brydlon. Bydd modd i chi fynd â'ch bwyd i'r Cyfarfod Cyffredinol a'r Fforwm Agored a fydd yn cychwyn am 5.30 pm. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol yn cynnwys adroddiad blynyddol BMC Cymru ac ethol swyddogion. Mae'r holl swyddogion presennol yn rhydd i gael eu hailethol ond rhaid i ni ddod o hyd i bobl a fyddai'n fodlon cymryd drosodd y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu i godi proffil Cerdded Bryniau a Dringo yng Nghymru.

Os medrwch helpu gyda hyn a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda? Cofiwch ein bod i gyd yn wirfoddolwyr ac mae'r BMC yn dibynnu arnom ni. Wedi'r Cyfarfod Blynyddol cynhelir y FFORWM AGORED lle bydd cyfle i chi godi unrhyw fater sydd yn ymwneud â

Cherdded Bryniau a Dringo neu i drafod unrhyw beth sydd yn codi o'r wybodaeth sydd yn y cylchlythyr hwn.

Am 7.30pm cynhelir cwis mawreddog gan Noel Craine a George Smith, y ddau gymeriad byd-enwog sydd yn ymwneud â Gŵyl Ffilmiau Mynydd Llanberis (Llamff). Ar ôl y cwis dangos ir ffilm newydd George Smith, sef Upside Down Wales. Bydd George yn bresennol i ateb cwestiynau.

### Cronfa Bolltau De Cymru

Bellach mae cronfa bolltau yn Ne Cymru. Ymwelwch â www.southwalesboltfund.co.uk os hoffech gael gwybod mwy ac i gael gwybod sut y gallech helpu.

### Stryd Downing




Braf oedd cael gwahoddiad, ynghyd â 130 o bobl eraill, i Dderbyniad y Prif Weinidog ar gyfer y BMC yn Stryd Downing ar y 9fed Hydref. Yn anffodus nid oedd modd i Gordon Brown fod yn bresennol yn y cyfarfod gan ei fod yn gweithio ar y Wasgfa Ariannol (sydd heb ei graddio eto!) ac felly cymerwyd ei le gan y Gweinidog Chwaraeon.

Cafwyd anerchiadau ardderchog gan Charles Clarke a Leo Holding am ddringo yn y DU ac am gampau dringwyr y DU ledled y byd. Dangosodd y Gweinidog Chwaraeon ei fod yn deall hyfforddi. Roedd braidd yn rhyfedd mewn gwirionedd bod criw o ddringwyr yn siarad â'i gilydd am ddringo mewn ystafelloedd yn rhif deg Stryd Downing. Roedd mesurau diogelwch llym yn rheoli mynediad ac mae sgaffaldiau dros y tu allan ar hyn o bryd ond roedd yn braf cael cerdded drwy'r drws arbennig hwn. Dydw i ddim yn siŵr a gyflawnwyd rhyw lawer. Cawsom gyfle i yfed digon ac roedd y manion ar oedd ar gael i'w bwyta'n dda iawn!

### Y ddadl ynglŷn ag offer sefydlog



Bydd Cyngor Mynydda Cymru'n rhyddhau arian drwy ei gronfa offer sefydlog ar gyfer cronfeydd bolltau Gogledd a De Cymru, i gael pegiau dur, os byddwn ei eisiau. A ddylid rhoi pegiau newydd yn lle'r hen rai ynteu a ddylid eu gadael i bydru ac ail-raddio'r dringfeydd i gydfynd â hynny? A ydym am weld mwy o orsafoedd abseilio, a rhai gwell? Dewch i'r Fforwm Agored i fynegi eich barn.

### Newyddion Tremadog



Cefais wybod yn ddiweddar ein bod yn agos iawn at gwblhau ein cais i gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru y Comisiwn Coedwigoedd i helpu i reoli'r coed ym Mwlch y Moch. Bydd y cynllun yn cynnwys cwympo rhai o'r coed masarn er mwyn agor y clogwyn i gael mwy o oleuni haul yno. Bydd yn cynnwys rhoi wyneb ar rai o'r llwybrau a marcio'r llwybrau. Bydd croeso mawr i chi fynegi eich syniadau am hyn, fel am bopeth arall, yn y Fforwm Agored.

### Diwrnod/penwythnos gwaith mis Ionawr

Rwyf yn bwriadu cynnal diwrnod neu benwythnos gwaith ym Mwlch y Moch ar y 10fed / 11eg Ionawr 2009. Cawn weld a fydd modd gwella'r mynedfeydd at rai llwybrau (y llwybr Cyri Nadolig?) a gwneud gwaith garddio ar raddfa fwy cyn Gŵyl Tremadog yn Ebrill. Ceisiaf drefnu'r abwyd arferol er mwyn ceisio denu pobl, megis lle i gysgu, cacennau a chwrw am ddim. Os hoffech helpu'r tro hwn rhowch wybod i mi drwy anfon neges at bmccymruwales@live.co.uk .

### Penodi Swyddog Cymru / Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru

Mi wn fod hyn yn rhywbeth y bu llawer o freuddwydio yn ei gylch. Gofynnwyd i mi gyflwyno'r achos o blaid cael swyddog BMC (Cyngor Mynydda Prydain) yng Nghymru eto yn y cyfarfod nesaf o Gyngor Cenedlaethol BMC Cymru ar y 29ain Tachwedd. Ein dull presennol o geisio cael y maen i'r wal yw gofyn i'r BMC ariannu'r swydd hon am ddwy flynedd gan nodi mai un o nodau penodol y swydd fydd chwilio am ffynonellau o arian ar gyfer Cymru.

Ar hyn o bryd nid yw'r BMC yn derbyn dim arian ar wahân i'r tâl aelodaeth. Bydd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru (MLTW) yn hysbysebu am Swyddog Cenedlaethol i weithio ar gytundeb hanner amser o Ebrill '09 ymlaen. Gallem gei-

sio dod o hyd i un person i wneud y ddwy swydd er y gallai hynny fod yn amhosibl gan fod cylch gorchwyl y ddwy swydd yn wahanol iawn i'w gilydd.

## Cyswllt â LLCC

Rhaid bod rhyw aelod o'r BMC a fyddai'n fodlon ein helpu i ffurfio cyswllt â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Chi yw'r person?

## Newyddion hyfforddi



Yn ddiweddar derbyniodd Grŵp Cydlynu Mynydda (Mountaineering Co-ordination Group) adroddiad gan y National Source Group (NSG)ar ddyfodol Hyfforddi Mynydda.

Ar ôl darllen yr adroddiad mae'r Grŵp Cydlynu Mynydda wedi gofyn i MLTUK lunio cynllun hyfforddi a fyddai'n gweithredu ar y cyd â'r cymwysterau Hyfforddi Arweinwyr Mynydd presennol. Dylai adroddiad y NSG fod ar gael ar wefan y BMC.

## Bolltio llechi



Yn ein cyfarfod diwethaf cafwyd trafodaeth gyfeillgar am retro-folltio ar lechi.

Os ydych yn dymuno gwneud hyn cyflwynwch eich cynlluniau i www.slate.wetpaint.com a dewch â hwy i gyfarfod o BMC Cymru.

## Llwybr y Gromlech

Mae'r prosiect hwn yn dod yn ei flaen a gobeithio bydd gennym fwy o newyddion erbyn y cyfarfod nesaf.

## Ffensio/Bagiau Creigiau



Ymateb gwael iawn a gawsom gan Gerddwyr a Dringwyr am leoliad y math hwn o sbwriel ar y bryniau. Byddaf yn dirwyn y prosiect hwn i ben yn y cyfarfod nesaf.


## Beth yw eich dymuniad?

Nid yw pawb yn medru dod i gyfarfodydd BMC Cymru. Medrwch gysylltu â ni drwy anfon at bmccymruwales@live.co.uk neu dewch i'n Diwrnod Hwyl blynyddol ar gynhelir ar ddydd Sadwrn. Pa bethau ddylem fod yn eu gwneud? Pa bethau ddylai fod yn flaenoriaethau gennym ar gyfer 2009? Cofiwch mai ni yw'r BMC
a dwedwch beth yw eich dymuniad?

## Wicis

Cofiwch gofrestru a chyflwyno sylwadau ar
www.slate.wetpaint.com
www.tremadog.wetpaint.com
www.northwaleslimestone.wetpaint.com
www.gogarth.wetpaint.com
Dyma wefannau rhyngweithiol. Medrwch gofrestru ar unrhyw adeg a dechrau cyflwyno sylwadau ar unwaith. Cewch ddefnyddio'r un enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer y pedair wici. Mae gwybodaeth yn allweddol a chewch chi ddim dal i guddio. Mae grym mewn gwybodaeth ac felly rhaid i ni ei rhannu.

## Rhaffau arwain/rhaffau gwaelod Penmaen-rhos a Thwll Dali




Mae'r ddau le hyn wedi bod yn anhygoel o boblogaidd gyda grwpiau o dringwyr o ardal eang iawn. Mynegwyd peth pryder am bod 'grwpiau' yn mynnu cadw darnau o ddringfeydd drwy osod rhaffau o'r top i'r gwaelod arnynt. Ymddengys i mi nad oes problem os oes rhywun yn arwain y teithiau a nifer yn dilyn ond peth hunanol iawn yw i rywun fynd yno i ddim ond i drefnu'r man dringo ac yna ei gadw iddo'i hun.

Felly gadewch i ni fod yn deg a bod ychydig yn fwy ystyriol ond cofiwch bod pedwar o bobl a rhaff yn grŵp, ac nid dim ond rhai sydd yn derbyn cyfarwyddyd neu hyfforddiant.

## Y Faenol Arms

Mae'n drist meddwl bod rheolwyr newydd yn dod i'r Faenol Arms, Nant Peris. Mae Ann a'i thîm wedi rhoi croeso arbennig i gyfarfodydd BMC Cymru, ac i gerddwyr a dringwyr yr ardal. Rydym yn dymuno diolch o galon iddi a dymuno'n dda iawn iddi hi a'i theulu yn eu mentrau newydd. Ein gobaith yw y bydd y bobl newydd mor groesawgar ag yr oedd hi.

**Craig y Gesail**



Mae'r fferm lle mae'r graig hon ar werth. Ceir mynediad at y graig drwy ganiatâd gan nad yw ar dir sydd â hawl mynediad arno dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Byddwn yn gwylio'r sefyllfa'n ofalus ac yn gobeithio medru adnewyddu'r cytundeb mynediad, ond yn y cyfamser, os byddwch yn yr ardal hon cadwch lygad ar bethau i ni os gwelwch yn dda.

**Y Cyngor Cenedlaethol**

Mae Cyngor Cenedlaethol y BMC wedi cytuno i dalu am gyfieithu llyfr Cerdded Bryniau MTP a hefyd efallai am rywfaint o gost y cynhyrchu. Mae hyn yn newydd da i awn i BMC Cymru a hwn fydd y llawlyfr Mynydda cyntaf i gael ei gynhyrchu yn y Gymraeg. Y gobaith yw y gallai fod yn gyfrwng i fwy o bobl leol gymryd at yr awyr agored.

Cytunodd y Cyngor Cenedlaethol hefyd i BMC gymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf. Cynhelir yr Eisteddfod yn y Bala ym mis Awst 2009 ac fe hoffem yn fawr gael clywed gan unrhyw aelodau sydd yn Gymry Cymraeg ac a hoffai helpu yno. Bydd hefyd yn gyfle gwych i lansio'r llyfr Dringo Cymraeg.

Os byddwch ar gael i helpu mewn unrhyw ffordd yn yr Eisteddfod, cynhelir cyfarfod i drefnu ym Mhlas-y-Brenin ar y 1af Rhagfyr am 5.00pm. Dewch draw.

**MLTUK**

Mae MLTUK (Hyfforddi Arweinwyr Mynydda y DU) yn bwriadu newid yr enw i MLT ac, os bydd byrddau'r pedair cenedl yn cytuno y bwriad yw symud at rôl sydd yn ymwneud mwy â rheoli strategol. Mae'r holl MLT hyn a'r llall sydd yn bodoli ar hyn o bryd yn ddryslyd i bobl sydd â diddordeb mewn Hyfforddi Arweinwyr Mynydda yng Nghymru / yn yr Alban/ Lloegr/ Iwerddon neu'r DU ynghyd â'r cwestiwn o ymuno â'r Gymdeithas (y MLTA) ar yr un pryd!

Cedwir byrddau'r gwledydd ond dylai fod yn haws i'r grŵp defnyddwyr ddeall sut i gofrestru ac ennill y cymwysterau. Bydd MLT yn hysbysebu am Brif Weithredwr i symud pethau ymlaen, a chydlynu a rheoli (o ddydd i ddydd) gwaith y byrddau.

**Arweinlyfrau newydd Clwb y Dringwyr**

Mae Clwb y Dringwyr yn gweithio ar nifer o arweinlyfrau newydd. Yn ystod y 6-10 mis nesaf rydym yn gobeithio bydd yr arweinlyfrau canlynol wedi eu cwblhau ac ar werth yn y siopau. Dyma'r rhaglen ynghyd ag enwau'r rhai sydd yn casglu'r deunydd ynghyd.

**Llanberis** yn cynnwys Clogwyni'r Teryn (fel sydd yn arweinlyfr 2003)
Iwan Arfon-Jones, Bob Moulton, Don Sargeant Ion 2009

**Ogwen Tryfan a'r Glyderau**, ynghyd â chreigiau llai yn Nyffryn Mymbyr a adawyd allan o un Llanberis (2003)
Mike Bailey, Bob Moulton, Gwanwyn 2009

**Tremadog** Fel sydd yn arweinlyfr 2000 gan Steve Long, Peter Sterling
Haf 2009

BMC
thebmc.co.uk
Cyngor Mynydda Prydain

Gwnawn y cais arferol: os oes gennych luniau da (mewn unrhyw fformat) yr hoffech eu cynnig i gael eu cynnwys yn unrhyw un neu fwy o'r arweinlyfrau, anfonwch hwy at Glwb y Dringwyr drwy Martin Kocsis (mae'r cyfeiriad yn y llyfr aelodaeth) neu drwy anfon ebost at: kinderguide@hotmail.com

Os oes gan unrhyw un sylwadau ar gamgymeriadau yn y fersiynau blaenorol o'r arweinlyfr, cysylltwch â ni yn yr un ffordd. Fe nodir o ble y daeth pob cyfraniad a bydd Clwb y Dringwyr, yng hyd â chened-

laethau o ddringwyr i ddod, yn eich dyled am byth.
Dywed Steve Quinton o Sir Benfro bod set o luniau anhygoel o glogwyni wedi cael eu tynnu a bod y gwaith yn dod yn ei flaen yn dda.
Gweler yr apêl am ymosodiad ar bob dagr yn llyfr sir Benfro ar wefan Clwb y Dringwyr.
www.climbers-club.co.uk

### Adroddiad yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Mynyddoedd

Cyfarfu'r Ymddiriedolaeth ar yr 11eg Medi yn Penrith. Un eitem sydd yn parhau i beri pryder yw ariannu archifydd ar gyfer y dyfodol ac yntau'n dal â llawer i'w wneud. Tynnais sylw at yr adroddiad diweddaraf yng nghyfarfod Cymru sydd yn dweud bod gan y BMC warged a'i fod yn chwilio am syniadau gan yr ardaloedd ynglŷn â sut i wario'r arian hwn.

Cytunwyd i wneud cais ychwanegol at y Cyngor Cenedlaethol am grant pontio i fynd â'r Ymddiriedolaeth i 2009. Mae cael lle i storio'r nifer cynyddol o eitemau a gesglir yn parhau i fod yn broblem. Mae Prifysgol Cumbria wedi mynegi diddordeb mewn croesawu casgliad yr Ymddiriedolaeth a bydd gweithgor ar y cyd yn ymchwilio ymhellach i hyn.

Dywedodd y Cadeirydd Terry Gifford mai hon fyddai'r flwyddyn olaf iddynt drefnu Gŵyl Ffilmiau Kendal.
K.C.Gordon, cynrychiolydd Cymru.

### Yr Ieuenctid

Roedd yr ail gystadleuaeth flynyddol Clogfeini Yn Ôl i'r Ysgol Canolfan y Beacon yn llwyddiant mawr a chafwyd 21 o gystadleuwyr o Wynedd, 5 o Ynys Môn, 6 o Gonwy, 1 o Wrecsam a 12 o Loegr.
Roedd y 45 o bobl ifanc yn cystadlu mewn 7 categori. Roedd pob un yn cael 5 o broblemau yn ymwneud â chlogfeini a'r rheini'n gynyddol anodd.

Roedd y cystadlu'n frwd ond yn gyfeillgar a llawer o'r plant yn cyrraedd eu perfformiad gorau personol. Roedd Archie Ball yn un ohonynt. Ef oedd y cystadleuydd ieuengaf yn ddim ond 6 oed ac fe enillodd y wobr gyntaf. Conor Elwin ddaeth yn drydydd o'r bechgyn 10-12 oed a dim ond eleni y cychwynnodd ddringo. Brysied y Gyfres Ddringo i Ieuenctid y flwyddyn nesaf.

### Y Canlyniadau'n Llawn

Merched 6-9 oed
1af Natalie Jordan–Rogers
2ail Kezia Lovick-Jones
3ydd Sinead Williams

Bechgyn 6-9 oed
1af Archie Ball
2il Finn Burnham
3ydd Kes Thomas

Merched 10-12 oed
1af Josie Ball
2il Ellie Cadwalader
3ydd Ellissa Bryant

Bechgyn 10-12
1af Michael Hopkins
2il Charlie Mpetha
3ydd Conor Elwin

Merched 13-15
1af Jennifer Wood
2il Rachel Deakin
3ydd Thirza Moulden

Bechgyn 13-15
1af Bradley Hargreaves
2il James Fowler
3ydd Leon Bowen

Bechgyn 16-17
1af Charli Jones
2il Gareth Jones

MOUNTAIN TRAINING TRUST
Supporting Mountain Training • Yn Cefnogi Hyfforddiant Mynydda

**BMC** **CÔD CREIGIAU**
www.thebmc.co.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mynediad** | Gwiriwch y gronfa-ddata mynediad rhanbarthol (RAD) ar www.thebmc.co.uk am y gwybodaeth diweddaraf ynglun â mynediad | **Bywyd gwyllt** | Peidiwch darfu ar da byw, anifeiliaid gwyllt, neu llystyfiant ar y clogwyni; parchwch gyfyngiadau tymhorol nythu adar |
| **Parcio** | Parciwch yn ofalus gan osgoi giatiau a thramwyfeydd | **Cŵn** | Cadwch cŵn o dan rheolaeth ar bob achlysur; peidiwch gadael eich ci hel defaid neu darfu ar bywyd gwyllt |
| **Llwybrau** | Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u sefydlogi. Gadwch giatiau fel 'rydych yn eu ffeindio | **Sbwriel** | Peidiwch gadael olion – cymrwch eich sbwriel i gyd adref gyda chi |
| **Peryglon** | Gall dringo fod yn beryglus-derbyniwch y peryglon a byddwch yn ymwybodol o bobl eraill o'ch cwmpas | **Tai bâch** | Peidiwch gwneud llanast – claddwch eich gwastraff |
| **Parch** | Grwpiau ac unigolion- parchwch y graig, moeseg dringo lleol a phobl eraill | **Economi** | Gwnewch popeth a fedrwch i gefnogi'r economi gwledig-prynnwch yn lleol |

**Datganiad cyfranogaeth y BMC** — mae dringo, cerdded bryniau a mynnydda yn weithgareddau gyda perygl o niwed personnol neu marwolaeth. Dylai cyfrannogion yn y gweithgareddau yma fod yn ymwybodol o'r peryglon ac yn fodlon eu derbyn, a dylent fod yn gyfrifol am eu gweithredau a'u cysylltiad.